# WILLIAMS, RICHARD (1747 - 1811), clerigwr a llenor

**Enw:** Richard Williams
**Dyddiad geni:** 1747
**Dyddiad marw:** 1811
**Rhiant:** Richard Williams
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr a llenor
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd ym Mhenarlâg yn 1747 yn fab i'r rheithor, Richard Williams (M.A., Coleg Iesu, Rhydychen), a oedd yn fab i Peter Williams, clerigwr yntau, perchennog y Fron (Arddynwynt) gerllaw'r Wyddgrug - hawliai'r teulu dras Cynwrig Efell (Yorke, *Royal Tribes of Wales*). Yn Rhagfyr 1765, 'yn 18 oed,' aeth i Goleg Brasenose, Rhydychen, ond nid oes gofnod iddo raddio. Bu'n rheithor Machynlleth, 1789-1805, a Llanferres 1805-11; bu farw'n ddisyfyd 4 Mehefin 1811. Gradd neu beidio, y mae'n amlwg fod anian ysgolhaig ynddo; trosodd un o drasiedïau Seneca, y *Medea*, yn Saesneg, a gadawodd mewn llawysgrif drosiadau Lladin o farddoniaeth Gray, a phethau eraill. Ond cofir ef yn bennaf fel cyfaill Thomas Pennant, a chyfieithydd y darnau o farddoniaeth Gymraeg sydd yn *Tour* Pennant (megis ' Hirlas ' Owain Cyfeiliog); ymddengys cyfieithiadau ganddo hefyd yn *Musical and Poetical Relicks*, Edward Jones ('Bardd y Brenin').

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau


Foster, *Alumni Oxonienses*

*The Cambro-Briton*, i, 263

H. B. Thomas, *A History of the Diocese of St. Asaph* (1874), ii, 403 (a 393 ar y tad)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20748870


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu